Tynnwyd yn ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.

COMISIWN ELUSENNAU

# Newyddion

Newyddion y CE 52 - Rhagfyr 2015

## Cynnwys


- Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli
- Galluogi elusennau i wella eu gwaith
- Ceisio eich barn: Ymgynghori ar ganllawiau codi arian CC20
- Dod yn gyfarwydd â'ch dogfen lywodraethol
- Rhoi'n fwy diogel dros y Nadolig
- Trechu twyll yn y sector elusennol
- FALCON: codi ymwybyddiaeth o dwyll mandad
- Rhybudd: Y Ddeddf Terfysgaeth a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr
- Canllawiau diwygiedig ar chwythu'r chwiban
- Canllawiau diwygiedig ar gyfer elusennau addysgol sy'n codi ffioedd
- Ydy'ch manylion cyswllt cywir gennym ni?
- Ydych chi'n adrodd yn gywir am eich costau llywodraethu?
- Ffeilio mewn pryd
- Cyswllt cyflym: Canllawiau i ymddiriedolwyr
- I ddod cyn bo hir: dull newydd o gofrestru ar-lein
- Cais am gyfrifon digidol


## Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli

Yn ddiweddar rhyddhawyd adroddiad yn tynnu sylw at themâu allweddol ein gwaith ar fynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli mewn elusennau yn 2014-15. Dylai hyn fod yn arf ac yn fan cyfeirio; rydym ni am helpu ymddiriedolwyr i ddysgu o'r problemau rydym wedi'u gweld mewn elusennau eraill a'u paratoi i atal problemau tebyg rhag codi yn eu helusennau nhw. Roedd y gwersi a gododd yn ystod gwaith achos eleni yn cynnwys:

1. Mae elusennau ag unigolion sy'n dominyddu yn aml yn cael problemau llywodraethu difrifol. Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch cyd-ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau yn briodol ac ar y cyd.

2. Mae rheolaeth ariannol a chamddefnydd yn parhau i fod yn amlwg iawn yn ein gwaith achos. Darllenwch yr adroddiad i ddysgu am y systemau a'r rheolaethau a all helpu i ddiogelu eich elusen yn erbyn y problemau hyn.

Mae'r adroddiad yn hawdd ei ddefnyddio, gyda phenawdau i'ch helpu fel mannau cyfeirio ar bynciau arbennig. Mae'n cynnwys fideos byr i ymddiriedolwyr, fel yr un sy'n tynnu sylw at yr hyn a all ddigwydd pan fydd unigolion yn dominyddu gormod mewn elusennau. Gobeithio y bydd ymddiriedolwyr yn cael yr adroddiad hwn yn un llawn gwybodaeth a defnyddiol wrth iddynt reoli eu helusennau a diogelu ffydd a hyder cyhoeddus.

## Galluogi elusennau i wella eu gwaith

Nid yw pob un o'n hymholiadau yn seiliedig ar gwynion neu faterion cydymffurfio. Er enghraifft, mae peth o'n gwaith diweddar wedi gwella gallu elusennau i gyflawni eu cenhadaeth:

- Roedd Ymddiriedolaeth Ysgol Gyfun y Bontfaen wedi gofyn am ganiatâd i ryddhau cyfran o'i gwaddol parhaol (adran 282 i 284 o Ddeddf Elusennau 2011) i dalu am gyfleusterau ysgol newydd, gan gynnig talu'r arian yn ôl dros 6 mlynedd
- Roedd Clevedon Pier and Heritage Trust am fod yn 'gymdeithas' i'w helpu i roi mwy o fudd i'w chymuned
- Roedd tir yn Stirchley yn dir a roddwyd at ddefnydd adloniant cyhoeddus - roedd Cyngor Sir Birmingham, fel ymddiriedolwyr, wedi gofyn i gyfnewid y tir am ardal fwy roeddent yn berchen arni er mwyn creu maes parcio ar gyfer canolfan gymunedol gyfagos.

## Ceisio eich barn: Ymgynghori ar ganllawiau codi arian CC20

Hoffem ni glywed eich barn chi am ein canllaw diwygiedig drafft Elusennau a chodi arian: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr (CC20). Mae'n llawer byrrach na'r fersiwn cyfredol, ac mae'n egluro bod rôl allweddol gan yr ymddiriedolwyr i'w chwarae o ran gosod ymagwedd eu helusen at godi arian a sicrhau ei bod yn adlewyrchu gwerthoedd eu helusen. Hoffem ni glywed yn arbennig gennych chi os ydych chi'n ymddiriedolwr sy'n codi arian gan y cyhoedd. Ewch i'n tudalen ymgynghoriad lle y gwelwch ganllaw drafft a holiadur. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 11 Chwefror.

Tynnwyd yn ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.

## Dod yn gyfarwydd â'ch dogfen lywodraethol

Un o brif ddyletswyddau ymddiriedolwr yw sicrhau bod yr elusen yn dilyn ei hegwyddorion a'i diben a nodir yn nogfen lywodraethol yr elusen. Mae'r ddogfen lywodraethol yn debygol o fod yn gyfansoddiad, yn weithred ymddiriedolaeth, neu'n erthygl cymdeithasu ac mae'n gweithredu fel y 'llyfr rheolau' ar gyfer elusen. Yn aml iawn cawn gwestiynau fel 'Faint o ymddiriedolwyr ddylai fod gennym ni a sut ydyn nhw'n cael eu penodi a'u diswyddo?' a 'Sut ydym ni'n cau ein helusen?' Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn a mwy i gyd i'w cael yn eich dogfen lywodraethol, felly mae'n gwneud synnwyr i droi ati cyn eich bod chi'n cysylltu â ni.

Os ydych chi'n elusen gofrestredig ac nid oes gennych chi gopi o'ch dogfen lywodraethol, gallwch ofyn i'r comisiwn ddarparu un, ond mae'n bwysig iawn bod pob ymddiriedolwr yn cael copi, gyda chopi meistr wedi'i gadw mewn lle diogel. Dylech chi ei rannu mewn Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfodydd Cyffredinol Arbennig hefyd.

### Rhoi'n fwy diogel dros y Nadolig

Er bod achosion o dwyll codi arian yn anghyffredin, yn anffodus maen nhw'n digwydd. Gyda'r nifer uchel o apeliadau codi arian dros y Nadolig, rydym yn cynnal ymgyrch i annog y cyhoedd i roi'n ddiogel. Mae ein hymgyrch yn cynnig cynghorion ar sut i ganfod twyll gan hyrwyddo buddion rhoi i elusennau yr un pryd. Rydym yn annog elusennau i rannu'r wybodaeth hon â'u rhwydweithiau a chael staff a gwirfoddolwyr i ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn arferion da wrth gasglu rhoddion. Gweler GOV.UK i gael rhagor o wybodaeth am roi'n ddiogel.

## Trechu twyll yn y sector elusennol

Ym mis Hydref, mewn partneriaeth â'r Panel Cynghori ar Dwyll (FAP), cynhaliwyd y gynhadledd genedlaethol gyntaf ar drechu twyll yn y sector elusennol. Roedd y themâu yn cynnwys amddiffyn yn erbyn seiberdwyll, yr angen i fwy o bobl weithio mewn partneriaeth, chwythu'r chwiban effeithiol a defnyddio data i ganfod, atal a rhwystro twyllwyr. Dylai ymddiriedolwyr ystyried y cynghorion gorau a nodwyd gan y siaradwyr yn y gynhadledd (a gaiff eu cyhoeddi'n fuan) a chymharu'r canllawiau â threfniadau eu helusen nhw.

Rydym wedi ailwampio ac ail-lansio Grŵp Gwrthdwyll y Sector Elusennol hefyd, a arferai gael ei alw'n Grŵp Twyll y Sector Gwirfoddol, i gefnogi a datblygu gweithgareddau gwrthdwyll sy'n lleihau niwed a cholled i elusennau sy'n codi o dwyll. Dwy flaenoriaeth gyntaf y grŵp yw 'proffesiynoldeb' a 'seiberdwyll'.

Byddwn yn lansio tudalen we newydd lle y gall elusennau ddysgu mwy am weithgareddau'r grŵp a chanllawiau arfer da. Yn y cyfamser cysylltwch ag Alan Bryce, Uwch Reolwr Datblygu yn y comisiwn: alan.bryce@charitycommission.gsi.gov.uk.

## FALCON: codi ymwybyddiaeth o dwyll mandad

Mae twyll mandad yn parhau i fod yn golled twyll sylweddol i'r sector elusennol. Mae hyn yn digwydd pan fydd y twyllwr yn e-bostio neu'n ffonio'r elusen yn ffugio eu bod yn gyflenwr dilys y mae'r elusen yn delio â nhw yn rheolaidd. Mae'r twyllwr yn gofyn i'r elusen newid y cod didoli a'r cyfrif banc, ac yn gwyro taliadau i gyfrif y maen nhw'n ei reoli. Fel rheol yr elusen sy'n gyfrifol am unrhyw golled ariannol.

Mae FALCON, tîm Twyll a Throseddau Cysylltiedig Ar-lein yr heddlu Metropolitan, wedi lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r math hwn o dwyll. Bydd swyddogion atal twyll yn rhoi cyngor a chanllawiau arfer gorau i elusennau ar strategaethau i leihau twyll. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â sterling@met.police.uk neu lawrlwythwch boster ymwybyddiaeth twyll mandad. I gael gwybodaeth am FALCON, canllawiau ar ddiogelu'ch hun yn erbyn sgamiau, a rhybuddion twyll cyfredol yr heddlu, ewch i'r dudalen Rhybudd Twyll ar ei wefan.

Rydym yn annog ymddiriedolwyr i hyrwyddo ymwybyddiaeth o risgiau twyll mandad yn eu helusen, defnyddio'r posteri hyrwyddo sydd ar gael, ac os yw'n briodol cysylltu â FALCON i gael cyngor ar arfer da. Sylwch, dylai achosion o dwyll barhau i gael eu hadrodd i Action Fraud neu'r heddlu.

Tynnwyd yn ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.

## Rhybudd: Y Ddeddf Terfysgaeth a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr

O dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ymddiriedolwyr adrodd am amheuon neu gredoau yn ymwneud â therfysgwyr sy'n gweithredu mewn gwledydd neu ardaloedd lle mae grwpiau o derfysgwyr neu sefydliadau terfysgol yn rheoli, y gwyddys eu bod yn gweithredu, neu lle mae risg o derfysgaeth. O dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ymddiriedolwyr, gweithwyr elusennau a gwirfoddolwyr adrodd am amheuon neu gredoau fod trosedd cyllido terfysgwyr wedi digwydd. Mae'n rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn unol ag adran 19 o Ddeddf Terfysgaeth 2000.

Mae'r comisiwn yn ymwybodol o'r risgiau y mae elusennau a'u staff yn eu hwynebu pan fyddant yn gweithio mewn lleoliadau ansefydlog a pheryglus, ac yn cydnabod y risg bosibl o golled a achosir gan grwpiau o derfysgwyr. Mae'n rhaid i bob elusen sy'n gweithio mewn ardaloedd lle mae risgiau o derfysgwyr asesu a rheoli'r risgiau hyn gan weithredu'n rhesymol bob amser er lles gorau eu helusen. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr fod yn effro i'r risg i weithrediadau eu helusen drwy fod yn agos i grwpiau neu sefydliadau terfysgol.

Gwybod mwy, gan gynnwys sut i adrodd am amheuon neu gredoau yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol, ac i sicrhau bod staff eich elusen yn ymwybodol o'u gofynion cyfreithiol.

## Canllawiau diwygiedig ar chwythu'r chwiban

Gall gweithwyr adrodd am bryderon ynghylch camweithredu difrifol yn eu helusen i ni yn whistleblowing@charitycommission.gsi.gov.uk. Os yw'n cael ei wneud yn unol â meini prawf Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, mae gan chwythwyr chwiban rywfaint o ddiogelwch os ydynt yn cael eu trin yn annheg neu eu diswyddo o ganlyniad.

Rydym newydd ddiweddaru ein canllaw Chwythu'r chwiban: canllawiau i weithwyr elusennau. Mae'n crynhoi ein rôl a sut i chwythu'r chwiban, gyda chysylltiadau i'n canllaw mwy manwl, Cwynion am elusennau, gan esbonio beth sy'n digwydd pan fydd pryder yn codi a'r pwerau sydd gennym i ymchwilio ac unioni pethau.

Rydym yn eich annog chi i gael polisi chwythu'r chwiban yn ei le gyda system fewnol effeithiol ar gyfer canfod pryderon staff a allai gael effaith ddifrifol ar yr elusen (fel trychinebau, ceisiadau cyfreithiol costus a cholli enw da). Mae hyn yn cyfateb ag arferion gorau a gall helpu ymddiriedolwyr i gydymffurfio â'u dyletswydd i weithredu er lles gorau'r elusen a rheoli adnoddau ei helusen mewn ffordd gyfrifol, nid lleiaf trwy helpu i ganfod pryderon am dwyll. Mae erthygl gan Public Concern at Work ar y mater hwn yn ei ystyried yn fwy manwl.

## Canllawiau diwygiedig ar gyfer elusennau addysgol sy'n codi ffioedd

Mae elusennau addysgol sy'n codi ffioedd, gan gynnwys ysgolion annibynnol elusennol, yn cael eu hannog i rannu eu cyfleusterau ag ysgolion gwladol lleol. Mae'r canllaw diwygiedig yn gofyn i ymddiriedolwyr ysgolion elusennol gynnig sylwadau ar eu hymagweddau unigol eu hunain at fudd cyhoeddus ym maes chwaraeon, drama, cerddoriaeth a chelfyddydau eraill yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr.

Mae'r newid hwn yn dilyn pryderon a godwyd yn y Senedd yn ystod dadleuon ar y Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol) nad yw digon o gyfleusterau chwaraeon a'r celfyddydau sydd ym mherchnogaeth ysgolion annibynnol elusennol yn hygyrch i fyfyrwyr mewn addysg wladol.

### Ydy'ch manylion cyswllt cywir gennym ni?

Cymrwch eiliad i fewngofnodi i'n porthol ar-lein a gwnewch yn siŵr bod y manylion cyswllt cywir gennym ni ar gyfer cysylltiadau a enwir eich elusen. Mae'n bwysig bod y rhain yn gywir - yn arbennig cyfeiriadau e-bost - er mwyn i ni allu cysylltu â chi'n gyflym pan fydd angen.

Tynnwyd yn ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.

## Ydych chi'n adrodd yn gywir am eich costau llywodraethu?

Yn ddiweddar adolygwyd cyfrifon sampl o elusennau oedd wedi gwario cyfran anarferol o uchel o'u gwariant ar gostau llywodraethu. Fel rheol mae costau llywodraethu yn ffurfio rhan fach o wariant elusen, er enghraifft, bydd elusennau ag incwm dros £500,000 yn neilltuo tua 4% o'u cyfanswm gwariant i gostau llywodraethu. Fodd bynnag, yn ein sampl ni, y dyraniad cyfartalog i gostau llywodraethu oedd 38%.

Nid oedd llawer o'r elusennau hyn yn deall beth oedd costau llywodraethu, neu roeddent wedi defnyddio Datganiad o Arferion Cymeradwy anghywir. Roedd enghreifftiau o ddyraniadau llywodraethu anghywir yn gostau rheoli a gweinyddu cyffredinol, delio ag anghydfodau, colledion cyfnewidfa dramor a llog yn daladwy ar fenthyciadau. Mae'r Adolygiad Monitro Cyfrifon ar Gostau Llywodraethu Uchel yn cynnwys mwy o fanylion am yr adolygiad a chanllawiau ar neilltuo costau llywodraethu yn gywir.

## Ffeilio mewn pryd

Os mai 31 Mawrth yw diwedd blwyddyn ariannol eich elusen ac mae'n sefydliad corfforedig elusennol, dylech ffeilio eich cyfrifon a ffurflenni blynyddol erbyn 31 Ionawr. Rhaid gwneud hyn 10 mis ar ôl diwedd blwyddyn ariannol eich elusen, ond os ydych yn barod i ffeilio cyn hynny peidiwch â gadael pethau tan y funud olaf. Bydd angen cyfrinair arnoch i gyrchu ein gwasanaethau ar-lein diogel.

Mae methu â ffeilio'r dogfennau gofynnol yn fater difrifol iawn a gall effeithio ar eich statws fel elusen a'ch enw da gyda chefnogwyr a rhoddwyr grantiau. Ewch i GOV.UK i gael cyfarwyddiadau ar gyfer ffeilio.

### Cyswllt cyflym: Canllawiau i ymddiriedolwyr

Mae rhestr o'n holl ganllawiau cyhoeddedig i'w gweld ar ein hafan ar GOV.UK.

## I ddod cyn bo hir: dull newydd o gofrestru ar-lein

Fel rhan o'n gwaith i wella gwasanaethau digidol, rydym yn lansio cais ar-lein newydd i gofrestru. Bydd yn ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud penderfyniad cyflymach. Bydd Beta cyhoeddus ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

## Cais am gyfrifon digidol

Rydym yn annog elusennau i anfon cyfrifon yn ddigidol. Mae deunyddiau copi caled, ac yn arbennig cyfrifon, yn cymryd yn hwy i ni fynd trwyddynt a gall oedi'r broses. Os ydych chi'n gweithredu ar ran elusen ac yn anfon cyfrifon atom, defnyddiwch y porthol rydym wedi'i ddarparu.

**Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein dilyn ni ar Twitter @ChtyCommission**